OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 502 (Cy. 80)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC ("2000/572/EC") sy'n gosod amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystiad milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig o drydydd gwledydd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio 2000/572/EC i ddileu'r amod mewnforio bod paratoadau cig o drydydd gwledydd wedi eu rhewi'n ddwfn yn y safle neu'r safleoedd cynhyrchu tarddiad.

Mae rheoliad 3 yn dirymu, o ganlyniad, offerynnau eraill neu ddarpariaethau offerynnau eraill a addasodd yr amod mewnforio hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. 502 (W. 80)

# FOOD, WALES

## The Meat Preparations (Amendment) (Wales) Regulations 2024

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend Commission Decision 2000/572/EC ("2000/572/EC") which lays down animal and public health conditions and veterinary certification for the importation of meat preparations from third countries.

Regulation 2 amends 2000/572/EC to remove the import condition that meat preparations from third countries have been deep-frozen at the production plant or plants of origin.

Regulation 3 revokes, in consequence, other instruments or the provisions of other instruments which modified that import condition.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 502 (Cy. 80)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ebrill 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *12 Ebrill 2024* |
| *Yn dod i rym* | *28 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**).

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodwyd paragraff 11A yn Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1639) (Cy. 344) ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, addasu neu ddirymu unrhyw fân ddeddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd a wnaed o dan Erthygl 8(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC sy'n gosod y rheolau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu'r broses o gynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl (OJ Rhif L 18, 23.1.2003, t. 11) ("Cyfarwyddeb 2002"). Mae O.S. 2021/1 (Cy. 1), a ddiwygir gan reoliad 3 o'r offeryn hwn, yn addasu Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC sy'n gosod amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystiad milfeddygol ar gyfer mewnforio briwgig a pharatoadau cig o drydydd gwledydd (EUDN 2000/572). Mabwysiadwyd Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC (OJ Rhif L 240, 23.9.2000, t. 19) o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 94/65/EC sy'n gosod y gofynion ar gyfer cynhyrchu a gosod ar y farchnad friwgig a pharatoadau cig (OJ Rhif L 368, 31.12.1994, t. 10) ("Cyfarwyddeb 1994"), ond mae i'w ddehongli fel pe bai'n cael ei wneud o dan Gyfarwyddeb 2002 yn rhinwedd darpariaeth yng Nghyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33) ("Cyfarwyddeb 2004"). Bu i Gyfarwyddeb 2004, a ddiddymodd Gyfarwyddeb 1994, ddarparu yn Erthygl 4 y dylid dehongli cyfeiriadau at Gyfarwyddebau penodol, gan gynnwys Cyfarwyddeb 1994, fel pe baent yn cael eu gwneud, yn ôl y cyd-destun, at Gyfarwyddeb 2002; yn unol â hynny, mae'r rheol ddehongli honno yn cael yr effaith bod y pŵer ym mharagraff 11A o Atodlen 2 i O.S. 2011/2379 (Cy. 252) i addasu mân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a wnaed o dan Erthygl 8(4) o Gyfarwyddeb 2002 yn ymestyn i addasu Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. 502 (W. 80)

# FOOD, WALES

## The Meat Preparations (Amendment) (Wales) Regulations 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 April 2024* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *12 April 2024* |
| *Coming into force* | *28 April 2024* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by paragraph 11A(1) of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(**1**).

(**1**) S.I. 2011/2379 (W. 252). Paragraph 11A was inserted into Schedule 2 by regulation 2(2) of the Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020 (S.I. 2020/1639) (W. 344) and enables the Welsh Ministers to amend, modify or revoke any assimilated direct minor legislation made under Article 8(4) of Council Directive 2002/99/EC laying down the animal health rules governing the production, processing, distribution and introduction of products of animal origin for human consumption (OJ No L 18, 23.1.2003, p. 11) ("the 2002 Directive"). S.I. 2021/1 (W. 1), which is amended by regulation 3 of this instrument, modifies Commission Decision 2000/572/EC laying down animal and public health conditions and veterinary certification for imports of minced meat and meat preparations from third countries (EUDN 2000/572). Commission Decision 2000/572/EC (OJ No L 240, 23.9.2000, p. 19) was adopted under Council Directive 94/65/EC laying down the requirements for the production and placing on the market of minced meat and meat preparations (OJ No L 368, 31.12.1994, p. 10) ("the 1994 Directive"), but is to be construed as being made under the 2002 Directive by virtue of provision in Directive 2004/41/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 157, 30.4.2004, p. 33) ("the 2004 Directive"). The 2004 Directive, which repealed the 1994 Directive, provided in Article 4 that references to certain Directives, including the 1994 Directive, should be construed as being made, as the context demands, to the 2002 Directive; accordingly, that rule of construction has the effect that the power in paragraph 11A of Schedule 2 to S.I. 2011/2379 (W. 252) to modify retained direct minor EU legislation made under Article 8(4) of the 2002 Directive extends to the modification of Commission Decision 2000/572/EC.

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024.

(2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 28 Ebrill 2024.

**Diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC**

**2.** Ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC sy’n gosod amodau iechyd anifeiliaid a’r cyhoedd ac ardystiad milfeddygol ar gyfer mewnforio briwgig a pharatoadau cig o drydydd gwledydd ac sy’n diddymu Penderfyniad 97/29/EC(**1**) hepgorer Erthygl 3(3).

**Dirymiadau canlyniadol**

**3.** Mae’r canlynol wedi eu dirymu—

(a) rheoliad 3 o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021(**2**),

(b) Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Diwygio) 2021(**3**),

(c) Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021(**4**),

(d) rheoliad 3 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021(**5**),

(e) Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022(**6**),

(f) rheoliad 3 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022(**7**), ac

(**1**) EUDN 2000/572, a ddiwygiwyd gan O.S 2020/1462 a 2021/1 (Cy. 1).
(**2**) O.S. 2021/1 (Cy. 1), a ddiwygiwyd gan O.S 2021/376 (Cy. 117), 2021/977 (Cy. 231), 2021/1480 (Cy. 382), 2022/618 (Cy. 140), 2022/1317 (Cy. 266) a 2024/17 (Cy. 6).
(**3**) O.S. 2021/376 (Cy. 117).
(**4**) O.S. 2021/977 (Cy. 231).
(**5**) O.S. 2021/1480 (Cy. 382).
(**6**) O.S. 2022/618 (Cy. 140).
(**7**) O.S. 2022/1317 (Cy. 266).

**Title, application and coming into force**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Meat Preparations (Amendment) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 28 April 2024.

**Amendment to Commission Decision 2000/572/EC**

**2.** In Commission Decision 2000/572/EC laying down animal and public health conditions and veterinary certification for imports of minced meat and meat preparations from third countries and repealing Decision 97/29/EC(**1**) omit Article 3(3).

**Consequential revocations**

**3.** The following are revoked—

(a) regulation 3 of the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021(**2**),

(b) the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) (Amendment) Regulations 2021(**3**),

(c) the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (EU Exit) (Amendment) (No. 2) Regulations 2021(**4**),

(d) regulation 3 of the Official Controls (Extension of Transitional Periods and Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021(**5**),

(e) the Meat Preparations (Wales) (Amendment) Regulations 2022(**6**),

(f) regulation 3 of the Official Controls (Extension of Transitional Periods) (Amendment) (Wales) Regulations 2022(**7**), and

(**1**) EUDN 2000/572; amended by S.I. 2020/1462 and 2021/1 (W. 1).
(**2**) S.I. 2021/1 (W. 1), amended by S.I. 2021/376 (W. 117), 2021/977 (W. 231), 2021/1480 (W. 382), 2022/618 (W. 140), 2022/1317 (W. 266) and 2024/17 (W. 6).
(**3**) S.I. 2021/376 (W. 117).
(**4**) S.I. 2021/977 (W. 231).
(**5**) S.I. 2021/1480 (W. 382).
(**6**) S.I. 2022/618 (W. 140).
(**7**) S.I. 2022/1317 (W. 266).

(g) Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Diwygio) 2024(**1**).

(g) the Meat Preparations (Amendment and Transitory Modification) (Wales) (Amendment) Regulations 2024(**1**).

*Huw Irranca-Davies*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
11 Ebrill 2024

Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
11 April 2024

©ⓗHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2024/17 (Cy. 6).

(**1**) S.I. 2024/17 (W. 6).

ISBN 978-0-348-39561-7

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/502